

DATGANIAD O EFFAITH AR FUSNES

Rheolau Trefniadaeth Droseddol, rh 27.2; Deddf Cyfiawnder Troseddol 1967, adran 9; Ynadon; Deddf Llysoedd 1980, adran 5B

Mae'r Datganiad o Effaith ar Fusnes (ISB) yn gyfle i chi ddisgrifio'r effaith y mae trosedd wedi'i gael ar y busnes, megis colled ariannol uniongyrchol, ac effeithiau ehangach, e.e. wedi amharu ar y ffordd mae'r busnes yn cael ei redeg neu niwed i'w enw da. Bydd y llys yn ystyried y datganiad wrth benderfynu ar ddedfryd.

Yn y datganiad hwn ni ddylech fynegi barn na rhoi argymhelliad ar y ddedfryd neu'r gosb y dylai'r llys eu defnyddio. Mater i'r llys fydd penderfynu hyn. Dylech gyfyngu'r wybodaeth a roddwch yn y datganiad hwn i'r effaith y mae'r drosedd benodol hon wedi'i gael ar y busnes, yn hytrach na disgrifio sut y gallai unrhyw weithgarwch troseddol blaenorol fod wedi effeithio ar y busnes (oni bai, er enghraifft, bod y drosedd hon yn ganlyniad sawl trosedd gan yr un troseddwr).

Dylai'r busnes ystyried yn ofalus pwy i'w enwebu fel cynrychiolydd i wneud y datganiad ar ei ran. Ar ôl i chi gwblhau'r ffurflen hon, dylech ei dychwelyd drwy e-bost neu drwy'r post i'ch cysylltiad yn yr heddlu.

Rhaid i unigolyn sy'n gwneud Datganiad ar ran corfforaeth ("y cynrychiolydd enwebedig") fod wedi'i awdurdodi i'w wneud hynny ar ei ran. Rhaid i'r cynrychiolydd enwebedig hefyd fod mewn sefyllfa i roi tystiolaeth sy'n dderbyniol mewn llys am effaith y drosedd ar y busnes. Mae'n bosibl y bydd angen i'r cynrychiolydd enwebedig ateb cwestiynau ar y Datganiad yn y llys.

Dylech sylweddoli os byddwch yn dewis peidio gwneud datganiad ar ddechrau'r achos, ei bod yn bosibl na chewch chi gyfle arall i wneud un yn ddiweddarach. Y rheswm yw'r posibilrwydd y gall y llysoedd ddelio â'r achos yn gyflym iawn.

Mewn achosion mwy cymhleth a all gymryd mwy o amser i'r llysoedd ddelio â hwy, efallai yr hoffech gymryd mwy o amser i gasglu gwybodaeth berthnasol, er enghraifft, cyfrifon neu ddogfennau busnes eraill. Bydd yr heddlu'n cysylltu â chi i roi gwybod i chi beth yw dyddiad y gwrandawriad cyntaf ac ar yr adeg honno bydd angen i chi wneud neu ddiweddarau eich Datganiad drwy eich cynrychiolydd enwebedig.

Enw'r Busnes a Effeithiwyd	
Cyfeiriad y Busnes	
Enw Cyswllt	
Rhif Ffôn	
Cyfeiriad	
Rhif y Drosedd	
Heddlu oedd yn Bresennol	

1. Effaith Ariannol

☐

Rhowch dic yn y blwch hwn os yw'ch busnes heb ddioddef colledion ariannol o ganlyniad i'r drosedd hon.

1.1 Colledion ariannol uniongyrchol

Gallai'r rhain gynnwys ond nid ydynt wedi'u cyfyngu i:

- Asedau wedi'u colli neu wedi'u dwyn
- Difrod i adeiladau ac eiddo

Eglurwch ym mha ffordd mae eich busnes wedi dioddef colled ariannol uniongyrchol o ganlyniad i'r drosedd.

1.2 Costau ariannol anuniongyrchol eraill

Gallai'r rhain gynnwys ond nid ydynt wedi'u cyfyngu i:

- **Colli cwsmeriaid**
- **Effaith ar hyder cwsmeriaid**
- **Amser staff**
- **Gwariant ar fesurau diogelwch (e.e. seilwaith ffisegol, TG)**
- **Costau meddygol**
- **Cost staff contract**

Eglurwch ym mha ffordd mae eich busnes wedi dioddef colled ariannol anuniongyrchol o ganlyniad i'r drosedd.

2. Effaith Anariannol

Eglurwch sut y mae'r digwyddiad wedi cael effaith anariannol ar eich busnes.

Gallai hyn gynnwys:

- **Niwed i'ch enw da**
- **Anafiadau corfforol a ddioddefwyd gan staff neu gwsmeriaid**

3. Sylwadau eraill

Defnyddiwch y gofod hwn ar gyfer unrhyw sylwadau pellach yr hoffech eu gwneud am effaith y drosedd ar eich busnes.

4. A ydych chi'n bwriadu gwneud cais am iawndal o ganlyniad i'r drosedd?

Ydw/ Nac ydw

Datganiad

Mae'r datganiad (sy'n cynnwys ____ tudalen(nau) a lofnodwyd gennyf fi) yn gywir hyd eithaf fy ngwybodaeth a'm cred ac rwyf yn ei wneud gan wybod, os caiff ei gyflwyno fel tystiolaeth, y byddaf yn agored i gael fy erlyn os wyf yn fwriadol wedi datgan unrhyw beth y gwn sy'n anwir, neu nad wyf yn credu sy'n wir.

Llofnod: _____

Dyddiad: _____

Atodiad : Astudiaeth achos

Mae Kevin yn Rheolwr Gyfarwyddwr busnes gwerthu bwyd canolig ei faint yng nghanol dinas Nottingham. Am 8pm ar nos Sadwrn, daeth criw o bump o ddynion i mewn i'r siop, gan ymosod ar ddau aelod o staff a dwyn £210 o'r til. Hefyd, difrodwyd gwerth £30 o stoc, torrwyd dwy ffenestr a difrodwyd camera cylch cyfyng. Penderfynodd y ddau aelod o staff a ddioddefodd yr ymosodiad wneud Datganiad Personol y Dioddefwr i esbonio sut mae'r drosedd wedi effeithio arnynt yn ychwanegol at y ffurflen ISB y penderfynodd Kevin ei chwblhau.

Wrth gwblhau'r ffurflen ISB ar-lein, penderfynodd Kevin gynnwys yr wybodaeth ganlynol i egluro sut yr oedd y drosedd wedi effeithio ar ei fusnes:

Colledion ariannol uniongyrchol

- £210 wedi'i ddwyn o'r til;
- £30 o stoc wedi'i ddifrodi;
- Difrod i adeiladau ac eiddo;
- Cost o £200 i osod ffenestri newydd sy'n cael ei hawlio'n ôl oddi ar yr yswiriant;

Cyflwynwyd dogfennau pan yn bosibl i gadarnhau'r colledion ariannol.

Costau ariannol anuniongyrchol eraill

- Dioddefodd dau aelod o staff, Ahmed a Sally, anafiadau a achosodd i'r ddau ohonynt golli pythefnos o waith. Roedd hyn yn golygu bod y busnes wedi gorfod talu Tâl Salwch Statudol ac wedi gorfod recriwtio staff dros dro.
- Roedd y siop ar gau am ddau ddiwrnod er mwyn clirio'r llanast a gosod y ffenestri newydd. Arweiniodd hyn golled ariannol bellach o ddau ddiwrnod o fasnachu gyda'r trosiant dyddiol cyfartalog yn £2,500. Effeithiodd hyn hefyd ar hyder y cwsmeriaid a bu gostyngiad sylweddol yn y trosiant cyfartalog am bythefnos ar ôl y digwyddiad.
- Roedd yn rhaid gwario arian ychwanegol hefyd ar gamera cylch cyfyng newydd a ddifrodwyd yn y digwyddiad.

Effeithiau anariannol

- Cafodd cau'r busnes dros dro effaith ar hyder y cwsmeriaid ac mae o bosibl wedi cael effaith negyddol dymor hir ar enw da'r busnes.
- Dywedwyd fod dau gwsmer wedi dioddef mân anafiadau corfforol yn y digwyddiad. Nid yw'r cwsmeriaid hyn wedi dod yn ôl i'r siop ers y digwyddiad.